**ADRODDIAD I'R CABINET**
18 MAI 2021

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2020/21 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - £3,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
  - £10,561,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - Dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £234,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £200,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2020/21. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £114.644m am y 3 blynedd 2020/21 – 2022/23.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £10.998m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2020/21 i 2021/22

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £27.7m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £18.2m (66%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £4.1m o grant cyffredinol cyfalaf.

- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn glir. Yn ychwanegol i'r £14.1m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2020/21 mae £19.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2022/23

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2020/21 ar ddiwedd Mawrth 2021, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Addysg | 7,464 | 10,413 | 9,540 | 27,417 | (1,107) |
| Amgylchedd | 3,468 | 8,912 | 199 | 12,579 | 7,460 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 161 | - | - | 161 | 42 |
| Cyllid | 749 | 1,332 | 768 | 2,849 | (110) |
| Economi a Chymuned | 1,175 | 2,107 | 245 | 3,527 | 408 |
| Tai ac Eiddo | 4,689 | 17,777 | 5,052 | 27,518 | 1,849 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,914 | 4,635 | 1,450 | 7,999 | 518 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 744 | 1,018 | 250 | 2,012 | 145 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,798 | 7,895 | 4,765 | 17,458 | 512 |
| Ymgynghoriaeth | 2,505 | 6,998 | 287 | 9,790 | (19) |
| Corfforaethol | - | 2,834 | 500 | 3,334 | 1,300 |
| **CYFANSWM** | **27,667** | **63,921** | **23,056** | **114,644** | **10,998** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £10.998m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2020/21 ar ddiwedd Mawrth 2021, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | Addasiad Technegol | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | CYFANSWM | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,053 | 6,610 | 6,610 | 17,273 | (4,063) | 0 |
| Benthyca Arall | 75 | 6,000 | 12 | 6,087 | - | 3 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 22,264 | 17,714 | 6,835 | 46,813 | 4,063 | 10,561 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 43 | 799 | 13 | 855 | - | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | - | 59 | - | 59 | (2,526) | 234 |
| Cronfa Cyfalaf | - | 9,228 | 1,145 | 10,373 | 4,876 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 1,232 | 23,511 | 8,441 | 33,184 | (2,350) | 200 |
| **CYFANSWM** | **27,667** | **63,921** | **23,056** | **114,644** | **0** | **10,998** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £12,030k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £10,561k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £7,190k — Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel
- £2,249k — Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £568k — Grant Tai Arloesol – Cartrefi Clyd ( Podiau)
- £505k — Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill
- £376k — Amrywiol grantiau Adfywio
- £267k — Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol
- £250k — Grant Cronfa Rhyddhau Tir
- £207k — Grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol

- £125k Grant Cronfa Ffyrdd Cadarn
- £117k Grant cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru
- £83k Grant Capasiti Ymchwydd (COVID) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a gofal dydd
- £65k Grant Digartrefedd Gwedd II gan Llywodrath Cymru
- £28k Grant COVID Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf,**
- **nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2020/21 – 2022/23.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau
Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

----------------------------

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi’r prif newidiadau i’r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | **2020/21**<br>**£’000** | **2021/22-2022/23**<br>**£’000** |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion *(Adran Addysg ac Adran Tai ac Eiddo).* | 2,249 | |
| • Ail asesu cynlluniau Grant Ysgolion Ganrif 21 *(Adran Addysg).* | | (1,208) |
| • Amrywiol grantiau adfywio gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 376 | |
| • Grant COVID Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 28 | |
| • Grant Cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 117 | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 505 | |
| • Grant Capasiti Ymchwydd (COVID) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a gofal dydd *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 83 | |
| • Cywiro ariannu cynllun Ad-leoli Segontium *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | (74) | |
| • Grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol tuag at welliannau i Ganolfan Ailgylchu Bangor, cynlluniau Hwb Rhannu Bwyd Cymunedol a Cartgylchu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 112 | 95 |
| • Grant Cronfa Ffyrdd Cadarn *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 39 | 86 |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 238 | 6,952 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol *(Adran Amgylchedd).* | 266 | 1 |
| • Grant Tai Arloesol - Cartrefi Clyd (Podiau) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 291 | 277 |
| • Grant digartrefedd gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 65 | |
| • Grant Cronfa Rhyddhau Tir ar gyfer datblygiadau tai gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 66 | 184 |
| • Addasiad grant HWB Seilwaith Ysgolion - elfen gyfalaf yr arian uniongyrchol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer offer TG i ysgolion *(Adran Cyllid).* | (201) | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Cyfraniadau tuag at ambell gynllun yn ymwneud ag ysgolion *(Adran Addysg).* | 152 | |
| • Cyfraniadau tuag at amrwyiol gynlluniau Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 61 | |
| • Ariannu Cyfatebol tuag at Safle Sipsiwn Llandygai a chynllun arall Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 16 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Adnewyddu Cerbydau o gronfeydd adnewyddu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Cyllid).* | 155 | |
| • Cyfraniad tuag at y cynllun Technoleg Gwybodaeth HWB seilwaith ysgolion *(Adran Cyllid).* | 62 | |

----------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 20/21, sy'n llithro i 21/22) *(Adran Addysg; Adran Tai ac Eiddo; Corfforaethol)* | (2,249) | 949 |
| Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 20/21, sy'n llithro i 21/22) – swm i'w ddyrannu *(Corfforaethol)* | | 1,300 |
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (4,489) | 4,489 |
| Adfywio Bangor a Chaernarfon *(Adran Economi a Chymuned)* | (758) | 758 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (409) | 409 |
| Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned)* | (555) | 555 |
| Cynllun Grant Gofal Plant *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (768) | 768 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (924) | 924 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (750) | 750 |
| Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (561) | 561 |
| Cynlluniau Goleuadau Traffig a Stryd LED *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (301) | 301 |
| Cynlluniau Priffyrdd a Phontydd *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (1,531) | 1,531 |
| Cynlluniau Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (340) | 340 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd)* | (3,315) | 3,315 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (1,639) | 1,639 |
| Cei Aberdyfi *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (1,748) | 1,748 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (766) | 766 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (171) | 171 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau *(Adran Amgylchedd)* | (456) | 456 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (72) | 72 |
| Cynlluniau Grantiau Tai ac Eraill *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,672) | 1,672 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (3,595) | 3,595 |
| Cynlluniau Digartrefedd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,113) | 2,113 |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (170) | 170 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,142) | 1,142 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (580) | 580 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi *(Adran Tai ac Eiddo)* | (925) | 925 |
| Adnewyddu Cyfarpar TG *(Adran Cyllid)* | (95) | 95 |
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 21/22 *(Corfforaethol)* | (1,034) | 1,034 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

----------------------------